❖ Gwna ni'n Hydreus a Disgwylgar

Ti yw'r Duw a ddaethost;
ti yw'r Duw sy'n dyfod;
ti yw'r Duw a ddaw.
Daethost yn Iesu Grist
yn llawn gras a gwirionedd.
Ti yw'r Ysbryd sy'n dod i roi eli i'n llygaid;
deui mewn trugaredd
i godi'r cyrten lliw ar derfyn yr oesau.
Gwna ni'n ddiolchgar am i ti ddod;
gwna ni'n ddisgwylgar a chroesawgar
tuag atat ar dy ffordd;
gwna ni'n hyderus y deui eto mewn gogoniant,
trwy Iesu Grist
sydd yr un ddoe, heddiw
ac yn dragywydd.

John H. Tudor